**Dyddiad:** **Dydd Mercher, 14 Ionawr 2004**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2004**

## Diben

Yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2003 nododd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fersiwn ddrafft y Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) i'w hystyried. Bydd y rheoliadau'n cael eu hystyried a'u cymeradwyo yn y cyfarfod llawn ar 23 Mawrth 2004. Mae'r rheoliadau drafft yn Atodiad 1.

Mae rheolau sefydlog 9 a 22 yn caniatáu i bwyllgor pwnc roi cyngor ar ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru.

## Crynodeb

Mae'r rheoliadau'n cyflwyno fframwaith cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu, i gael mwy o gysondeb yn y ddarpariaeth ledled Cymru.

## Cefndir

Mae Adran 3 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth mabwysiadu yn eu hardal. Dylai hynny gynnwys gwasanaethau cymorth ynghyd â gwasanaeth cwnsela, cyngor a gwybodaeth ac unrhyw wasanaethau eraill sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau.

Mae Paragraff 3 Atodlen 4, Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn cyflwyno darpariaethau trosiannol ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu 1976 cyn i Ddeddf 2002 gael ei rhoi ar waith yn llawn.

Bydd y darpariaethau cymorth mabwysiadu'n cael eu gweithredu mewn dau gam. Mae'r rheoliadau drafft hyn ar gyfer cam cyntaf y gwasanaethau cymorth mabwysiadu y bwriedir iddynt ddod i rym yn 2004. Dyma elfennau allweddol Cam 1 y fframwaith cymorth mabwysiadu:

- Cwnsela, cynghori a gwybodaeth;
- Cymorth ariannol yn lle lwfansau mabwysiadu awdurdodau lleol;
- Grwpiau hunan-gymorth ar gyfer teuluoedd sy'n mabwysiadu;
- Cymorth ar gyfer y trefniadau cyswllt rhwng plant sydd wedi'u mabwysiadu a'u perthnasau naturiol;
- Gwasanaethau i ddiwallu anghenion therapiwtig plant sy'n cael eu mabwysiadu;
- Gwasanaethau i atal trefniadau mabwysiadu rhag chwalu;
- Cynghorydd gwasanaethau cyngor mabwysiadu.

Mae'r rhain yn gosod sylfaen ar gyfer y gwasanaethau cymorth mabwysiadu y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol gynllunio ar ei gyfer. Mae cynnig y gwasanaethau fesul cam yn sicrhau bod gan awdurdodau lleol sydd ddim yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth yn gallu symud ymlaen yn eithaf cyflym cyn gorfod gweithredu'r fframwaith cymorth mabwysiadu llawn yn 2005. Ni fydd cyflwyno Cam 1 yn golygu bod yr awdurdodau lleol sydd mewn sefyllfa i ddarparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau'n gynharach yn cael eu hatal rhag gwneud hynny.

Bydd y gwasanaethau cymorth o dan Gam 1 yn cael eu targedu at ddiwallu anghenion teuluoedd sy'n mabwysiadu plant sydd wedi bod mewn gofal. Maent ar gyfer teuluoedd sy'n mabwysiadu am y tro cyntaf a theuluoedd sydd eisoes yn mabwysiadu, a hynny lle mae'r plentyn yn llai na 18 mis oed. Ni fydd hyn yn atal awdurdodau rhag darparu'r gwasanaethau hyn i bob teulu sy'n mabwysiadu yn ystod Cam 1 os mynnont wneud hynny.

Gan gydnabod bod llawer o blant yn gwerthfawrogi cael rhywfaint o gysylltiad â'u teulu naturiol, mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer cefnogi'r trefniadau hynny.

Mae'r Rheoliadau'n canolbwyntio ar anghenion teuluoedd sydd wedi'u cymeradwyo i fabwysiadu o'r cyfnod cydweddu ymlaen, neu, pan nad asiantaeth sydd wedi trefnu bod y plentyn yn cael ei fabwysiadu, anghenion y rhai sydd wedi dweud (o dan adran 22(1), Deddf 1976) eu bod yn bwriadu gwneud cais i fabwysiadu plentyn.

Nid yw'r Rheoliadau'n gwneud unrhyw newidiadau i'r trefniadau pan fydd llys-rieni'n mabwysiadu. Bydd y rhai sy'n ymwneud â'r broses hon yn parhau i dderbyn gwasanaethau o dan adran 1, Deddf 1976.

Mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983 yn parhau i fod mewn grym fel y'u diwygiwyd. Mae Rheoliad 7 yn nodi dyletswyddau asiantaeth fabwysiadu mewn perthynas â'r plentyn a'i rieni neu'i warchodwr ac mae Rheoliad 8 yn nodi dyletswyddau asiantaeth fabwysiadu mewn perthynas â mabwysiadwyr posibl. Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth cynghori sy'n egluro goblygiadau cyfreithiol mabwysiadu ac yn darparu gwybodaeth ar bapur. Y cam cyntaf yw'r Rheoliadau hyn, a fydd yn cefnogi teuluoedd sy'n mabwysiadu plant sydd wedi bod mewn gofal ond a fydd hefyd yn cefnogi teuluoedd sy'n mabwysiadu plant o dramor.

**Y Rheoliadau**

Mae prif ddarpariaethau'r Rheoliadau wedi'u crynhoi isod:

Mae **Rheoliad 1** yn datgan pryd y bydd y rheoliadau'n dod i rym a'u bod yn gymwys i Gymru.

**Mae Rheoliad 2 yn diffinio'r termau yn y rheoliadau.**

Mae **Rheoliad 3** yn nodi'r gwasanaethau cymorth mabwysiadu y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu trefnu ar gyfer y grwpiau defnyddwyr posibl. Dyma'r gwasanaethau y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol eu darparu:

- Cymorth ariannol o dan Reoliad 10 (Rheoliad 3(1)(a))
- Grwpiau cymorth ar gyfer rhieni sy'n mabwysiadu a phlant sy'n cael eu mabwysiadu (Rheoliad 3 (1)(b))
- Cymorth i drefnu bod plant sy'n cael eu mabwysiadu'n cael cysylltiad â'u teuluoedd naturiol, neu bobl eraill y mae ganddynt berthynas arwyddocaol â hwy (Rheoliad 3(1)c (i) (ii))
- Gwasanaethau therapiwtig (Rheoliad 3(1)(d))
- Gwasanaethau i sicrhau bod y lleoliad mabwysiadu neu'r mabwysiad yn llwyddo. Er enghraifft hyfforddiant neu ofal seibiant (Rheoliad 3(1)(e))
- Cwnsela, cynghori a gwybodaeth (Adran 2(6), Deddf 2002)

Mae **Rheoliad 4** yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol enwebu un enw cyswllt – cynghorydd gwasanaethau cymorth mabwysiadu – er mwyn cyfeirio pobl yr effeithir arnynt gan fabwysiadu at y gwasanaethau priodol, gan roi cyngor a gwybodaeth iddynt ar sut i fanteisio ar y gwasanaethau hyn. Bydd gan y cynghorydd rôl gynhwysfawr i sicrhau bod trefniadau addas ar waith o fewn a rhwng gwasanaethau cymdeithasol, awdurdodau addysg, ymddiriedolaethau iechyd lleol, awdurdodau lleol eraill ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol.

Mae **Rheoliad 5** yn nodi bod yn rhaid asesu'r angen am wasanaethau cymorth mabwysiadu o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- Dylai asesiad diweddar o anghenion y plentyn fod ar gael i helpu i lunio'r adroddiad a roddir i'r panel mabwysiadu wrth ystyried a ddylai plentyn sy'n derbyn gofal gael ei fabwysiadu ai peidio. Gellir dweud o ystyried anghenion y plentyn a oes angen gwasanaethau cymorth mabwysiadu ai peidio.
- Rhaid gwneud asesiad wrth fynd ati i ddod o hyd i deulu addas ar gyfer plentyn sydd mewn gofal. Bydd yr asesiad o anghenion y plentyn yn helpu wrth wneud yr asesiad hwn.
- Adolygiad o'r trefniadau cymorth mabwysiadu pan fo lleoliad mabwysiadu plentyn mewn gofal yn cael ei adolygu yn ystod 4 wythnos gyntaf lleoli'r plentyn
- Ar gais y personau a nodir yn y rheoliadau.

Mae **Rheoliad 5** hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sy'n ystyried lleoli plentyn gyda rhieni

mewn ardal awdurdod lleol arall ymgynghori â'r awdurdod hwnnw ynghylch y lleoliad a'r asesiad.

Wrth asesu plentyn mewn gofal o dan Reoliad 5, dylid defnyddio gwybodaeth o'r Fframwaith Asesu a'r System Gofalu am Blant ac unrhyw ffynonellau perthnasol eraill i ystyried pa fath o wasanaethau cymorth mabwysiadu fydd eu hangen.

Mae **Rheoliad 6** yn nodi'r weithdrefn ar gyfer asesu'r hyn y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei ystyried. Mae'r rheoliad hefyd yn nodi y dylai'r awdurdod lleol, lle bo'n addas, gynnal cyfweliad a pharatoi adroddiad ysgrifenedig. Er enghraifft, os yw'r cais yn gais am wybodaeth sydd ar gael yn hawdd ac y gellir ateb dros y ffôn, yna ni fydd angen cynnal cyfweliad. Dylid cyfweld â'r plentyn bob amser wrth gynnal asesiad craidd.

Yn ôl **Rheoliad 7**, unwaith y bydd anghenion unigolyn am wasanaethau cymorth mabwysiadu wedi cael eu hasesu, ac y bydd yr awdurdod lleol wedi hysbysu'r unigolyn hwnnw am eu penderfyniad ynghylch y gwasanaethau hynny, bydd yr awdurdod lleol yn paratoi cynllun ar gyfer y math o wasanaethau cymorth mabwysiadu i'w darparu, ag eithrio mai unwaith yn unig y mae'n rhaid darparu'r gwasanaethau.

Yn ôl **Rheoliad 8**, os bydd awdurdod lleol sy'n darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu, neu sydd wedi darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn y deuddeg mis diwethaf, yn gweld bod amgylchiadau defnyddwyr y gwasanaeth cymorth mabwysiadu wedi newid, bydd yn rhaid adolygu'r gwasanaethau hynny.

Mae Rheoliad 8 yn sicrhau y dylid adolygu'r gwasanaethau hefyd, os yw'r awdurdod lleol yn cael ar ddeall bod amgylchiadau defnyddwyr y gwasanaeth cymorth mabwysiadu wedi newid. Dylai'r awdurdod lleol gynnal yr adolygiad o fewn 4 wythnos i gael gwybod am y newid mewn amgylchiadau.

Bwriad **Rheoliad 9** yw galluogi teuluoedd sy'n mabwysiadu i gael y cymorth sydd ei angen arnynt, ble bynnag y maen nhw'n byw. Pan fo plant yn cael eu mabwysiadu y tu hwnt i ffiniau'r awdurdod lleol, neu pan fo teuluoedd sy'n mabwysiadu'n symud y tu hwnt i ffiniau'r awdurdod lleol, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol sy'n lleoli'r plentyn yw ariannu:

- gwasanaethau cymorth mabwysiadu ag eithrio cymorth ariannol, a
- chymorth ariannol parhaus y mae'r awdurdod sy'n lleoli wedi penderfynu ei ddarparu ar ôl i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud a hynny am dair blynedd ar ôl y dyddiad lleoli.

Yn unrhyw achos, dim ond y gwasanaethau y mae wedi penderfynu eu darparu y bydd yr awdurdod lleol yn gyfrifol am eu hariannu.

Pan fo'r awdurdod sy'n lleoli wedi penderfynu darparu cymorth ariannol parhaus, cyn i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud, dylai'r awdurdod lleol hwnnw barhau i fod yn gyfrifol am dalu am y cymorth nes iddo gael ei derfynu yn unol â Rheoliad 13. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r lwfansau mabwysiadu sy'n cael eu talu ar hyn o bryd o dan Reoliadau 1991.

Mae Rheoliad 9 hefyd yn nodi, os yw awdurdod lleol yn ystyried y dylai plentyn gael ei fabwysiadu ond ei fod heb ei leoli eto, neu os yw awdurdod lleol wedi lleoli plentyn i'w fabwysiadu, a bod awdurdod lleol arall yn darparu unrhyw wasanaethau cymorth mabwysiadu i'r plentyn, gall yr awdurdod hawlio costau gan yr awdurdod sy'n lleoli os yw'n darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu lle:

- mai'r awdurdod sy'n lleoli wnaeth benderfynu darparu'r gwasanaethau
- a'u bod yn cael eu darparu yn ôl cynllun a baratowyd gan yr awdurdod sy'n lleoli.

Ni ellir hawlio costau yn ôl am gymorth ariannol (sy'n parhau i fod yn un o gyfrifoldebau'r awdurdod sy'n lleoli) nac am gyngor a ddarperir neu gynghorydd gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

Mae **Rheoliad 10** yn pennu'r amgylchiadau ar gyfer darparu cymorth ariannol ac yn nodi y gellir rhoi cymorth ariannol i rieni sy'n mabwysiadu o dan un neu fwy o'r amgylchiadau canlynol:

- sicrhau y gall y rhieni sy'n mabwysiadu edrych ar ôl y plentyn (Rheoliad 10(2)(a)-(c))
- pan fo'r plentyn wedi sefydlu perthynas gref a phwysig â'r gofalwyr cyn i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud (Rheoliad 10(2)(d))
- er mwyn i frodyr a chwiorydd a phlant eraill gael eu lleoli gyda'i gilydd (Rheoliad 10(2)(e))
- diwallu anghenion arbennig y plentyn (Rheoliad 10(2)(f ))
- ei gwneud yn haws lleoli plant "anodd i'w lleoli" (Rheoliad 10(2)(g))
- sicrhau y gall y rhieni sy'n mabwysiadu edrych ar ôl y plentyn.

Mae Rheoliad 10(2)(a) a (b) yn darparu ar gyfer ystyried rhoi cymorth ariannol pan fo penderfyniad wedi'i wneud yn unol â Rheoliad 11(1), Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983 bod mabwysiadwyr posibl yn rhieni addas i blentyn arbennig.

Mae Rheoliad 10(2)(c ) yn darparu ar gyfer ystyried rhoi cymorth ariannol i blentyn sydd wedi'i fabwysiadu.

Mae Rheoliad 10(2)(d) yn darparu ar gyfer ystyried rhoi cymorth ariannol pan fo'r plentyn wedi sefydlu perthynas gref a phwysig â'r rhai sy'n mabwysiadu. Er enghraifft rhieni maeth, perthynas neu gyfaill.

Mae Rheoliad 10(2)(e) yn darparu ar gyfer talu cymorth ariannol lle byddai o fudd i'r plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu gyda brodyr neu chwiorydd; neu er mwyn ymuno â'i frodyr neu chwiorydd mewn lleoliad mabwysiadu; neu lle gallai'r plentyn fod wedi rhannu cartref â phlentyn sydd ddim yn perthyn ond ei fod wedi datblygu perthynas agos â'r plentyn hwnnw.

Mae Rheoliad 10(2)(f) yn berthnasol ar gyfer plentyn sydd â salwch, anabledd, problemau emosiynol neu broblemau ymddygiad neu sy'n dioddef oherwydd iddo gael ei gam-drin neu'i esgeuluso yn y gorffennol (neu gyfuniad o'r achosion hyn), ac yn sgil hynny bod angen gofal arbennig ar y plentyn sy'n golygu gwariant ychwanegol.

Mae Rheoliad 10(2)(g) yn berthnasol ar gyfer plentyn lle’r oedd ei oedran, ei ryw neu’i dras ethnig, ar adeg penderfynu y dylai gael ei fabwysiadu, yn ei gwneud yn debygol y byddai’n anodd dod o hyd i deulu a fyddai’n gallu diwallu anghenion y plentyn. Er mwyn sicrhau bod y plentyn y cael ei leoli ar unwaith, gallai’r awdurdod lleol gytuno mewn egwyddor i ddarparu cymorth ariannol.

Mae Rheoliad 10(3) yn pennu’r amodau sy’n ymwneud â newid amgylchiadau a chynnal adolygiad blynyddol. Mae’n rhaid i’r rhai sy’n mabwysiadu gytuno ar yr amodau hyn cyn i’r cymorth ariannol gael ei ddarparu. Dylid hysbysu’r rhai sy’n mabwysiadu am yr amodau hyn fel rhan o’r hysbysiad ysgrifenedig am gymorth ariannol sy’n ofynnol yn ôl Rheoliad 10.

Mae Rheoliad 10(3)(b) yn nodi y dylai’r rhai sy’n mabwysiadu gytuno i gwblhau a darparu datganiad blynyddol am eu hamgylchiadau ariannol hwy eu hunain ac amgylchiadau ariannol y plentyn, gan gynnwys anghenion ariannol, i’r awdurdod lleol.

Mae **Rheoliad 11** yn nodi’r ffactorau sy’n pennu swm y cymorth ariannol. Wrth bennu swm y cymorth ariannol sy’n daladwy mae’n rhaid i’r awdurdod lleol ystyried –

- unrhyw argymhelliad gan y panel mabwysiadu
- yr adnoddau ariannol sydd ar gael i’r rhieni sy’n mabwysiadu
- y swm sydd ei angen ar y rhieni sy’n mabwysiadu
- anghenion ac adnoddau ariannol y plentyn
- faint sydd angen ei wario i hwyluso’r broses o leoli’r plentyn

Mae **Rheoliad 12** yn pennu’r weithdrefn i’w dilyn wrth benderfynu a ddylid darparu cymorth ariannol ai peidio. Mae’n rhaid i’r awdurdod lleol:

- hysbysu’r rhieni sy’n mabwysiadu am gymorth ariannol
- hysbysu’r rhieni a ydynt wedi penderfynu darparu cymorth ariannol ai peidio, y swm a gynigir ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth ariannol

Mae **Rheoliad 13** yn nodi pa wybodaeth am gymorth ariannol y mae’n rhaid i’r awdurdod lleol ei rhoi i’r rhai sy’n mabwysiadu, ar ôl iddo benderfynu rhoi cymorth ariannol. Dyma’r wybodaeth i’w darparu:

- y dull a ddefnyddiwyd i benderfynu ar y cymorth ariannol;
- swm y cymorth ariannol i’w dalu i’r rhai sy’n mabwysiadu;
- y dyddiad y bydd y taliad cyntaf neu, lle bo’n briodol, yr unig daliad yn cael ei wneud;
- amlder y taliadau a’r cyfnod talu, lle bo’n briodol;
- unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y cymorth ariannol, a’r

canlyniadau o beidio â chadw at yr amodau hynny;
y trefniadau a’r weithdrefn ar gyfer adolygu, addasu a therfynu’r cymorth ariannol;

- cyfrifoldebau'r awdurdod lleol o dan Reoliad 14 mewn perthynas â'r trefniadau i adolygu, addasu a therfynu'r cymorth ariannol; a
- chyfrifoldebau'r rhai sy'n mabwysiadu mewn perthynas â'u cytundeb o dan baragraff (3), rheoliad 3 i hysbysu'r asiantaeth am unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau neu amgylchiadau'r plentyn.

Mae **Rheoliad 14** yn gofyn i awdurdod lleol, wrth ddarparu cymorth ariannol parhaus, adolygu'r cymorth ariannol yn flynyddol, ar ôl cael datganiad gan y rhai sy'n mabwysiadu yn rhoi gwybodaeth am eu hamgylchiadau ariannol hwy, anghenion ac adnoddau'r plentyn, eu cyfeiriad, ac a ydynt yn parhau i roi cartref i'r plentyn.

Mae'r rheoliad hwn hefyd yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau lle bydd yr awdurdod lleol yn terfynu'r lwfans. Mae'r amgylchiadau hyn, sy'n debyg i'r amgylchiadau yn Rheoliadau 1991, fel a ganlyn:

- os nad yw'r plentyn yn cael cartref gan y rhai sy'n mabwysiadu. Mae hyn yn berthnasol os yw'r plentyn wedi gadael y cartref mabwysiadol yn barhaol. Nid yw'n berthnasol i gyfnodau pan fo'r plentyn i ffwrdd dros dro yn cael addysg, gofal seibiant neu am ei fod yn yr ysbyty;
- os yw'r plentyn wedi gadael addysg neu hyfforddiant llawn amser ac yn cychwyn gweithio;
- os yw'r plentyn yn gymwys i gael cymhorthdal incwm neu lwfans ceisio gwaith;
- os yw'r plentyn wedi cyrraedd 18 oed, oni bai ei fod mewn addysg neu hyfforddiant llawn amser, lle gallai barhau hyd at ddiwedd ei gwrs addysg neu hyfforddiant.

Mae **Rheoliad 15** yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu ddarparu cofnodion ei achosion a'r mynegeion iddynt a datgelu unrhyw wybodaeth o'r fath fel a ganlyn:

- I'r rhai sy'n cynnal ymchwiliad o dan [adran 81] [adran 8] y Ddeddf Plant, at ddibenion ymchwiliad o'r fath
- I Lywodraeth Cynulliad Cymru
- I'r awdurdod cofrestru
- Yn amodol ar ddarpariaethau adrannau 29(7) a 32(3) Deddf Llywodraeth Leol 1974 (ymchwiliadau a datgelu), i Gomisiynydd Lleol, a benodwyd o dan adran 23 y Ddeddf honno (Comisiynwyr ar gyfer Gweinyddiaethau Lleol), at ddibenion unrhyw ymchwiliad a gynhelir yn unol â Rhan III y Ddeddf honno
- I unrhyw berson a benodwyd gan yr asiantaeth fabwysiadu er mwyn i'r asiantaeth allu ystyried unrhyw sylwadau (gan gynnwys cwynion)
- I'r unigolion a'r awdurdodau y cyfeirir atynt yn Rheoliad 11 (penderfyniadau ac argymhellion asiantaeth fabwysiadu) a Rheoliad 12 (lleoli ar gyfer mabwysiadu), Rheoliadau 1983
- I CAFCASS er mwyn iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau
- I lys sydd â'r grym i wneud gorchymyn o dan Ddeddf Mabwysiadu 1976

Mae **Rheoliad 16** yn diwygio Rheoliadau Lwfans Mabwysiadu 1991 fel nad ydynt yn cymhwyso i awdurdodau lleol mwyach, ond eu bod yn parhau mewn grym ar gyfer asiantaethau mabwysiadu sydd

wedi'u cymeradwyo.

Mae Rheoliad 16**(2)** yn sicrhau bod unrhyw lwfans y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei dalu o dan Reoliadau Lwfans Mabwysiadu 1991 cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym yn cael ei ystyried fel cymorth ariannol sy'n daladwy o dan y Rheoliadau hyn.

**Goblygiadau Ariannol**

Os bydd awdurdodau lleol yn mynd i unrhyw gostau ychwanegol, bydd cyllideb Plant yn Gyntaf yn talu amdanynt. Roedd y Gyllideb ar gyfer 2002-03 yn darparu £16.3 miliwn (yn erbyn £12.7 miliwn yn 2001-02), ac mae'n codi i £25.2 miliwn yn 2003-04, ynghyd ag arian ychwanegol i weithredu Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

Byddwn yn adolygu effaith ariannol y rheoliadau wrth ddatblygu rheoliadau ar gyfer Cam 2 y gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn ddiweddarach yn 2004.

**Themâu Trawsbynciol**

Ymgynghorwyd yn eang ag awdurdodau lleol, asiantaethau gwirfoddol, rhieni sy'n mabwysiadu, pobl sydd wedi'u mabwysiadu, CAFCASS ac eraill ynghylch y Rheoliadau.

Bydd y rheoliadau'n mynd i'r afael â'r anghysonderau sy'n bodoli o fewn darpariaeth bresennol y gwasanaeth ac yn sicrhau y bydd gan bob plentyn y cyfle i fod yn rhan o'r broses fabwysiadu a bod yn rhan o deulu sy'n cynnig cefnogaeth a chariad.

**Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc**

Gwahoddir y pwyllgor i ystyried y rheoliadau.

**Jane Hutt AC**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyswllt: Mike Burns, yr Is-adran Plant a Theuluoedd, ffôn 029 2082 6535